



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

CYD BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod y Cyd Bwyllgor a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy ar ddydd Gwener, 3 Mehefin 2011 am 10.30 am

PRESENNOL

Cynghorydd Eryl Williams – Cyngor Sir Ddinbych (**Cadeirydd**)
Cynghorydd Mike Priestley – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cynghorydd Meirion Hughes – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cynghorydd Arwel Pierce – Cyngor Gwynedd
Cynghorydd Sharon Frobisher – Cyngor Sir Ddinbych
Cynghorydd Neville Phillips – Cyngor Sir y Fflint
Alex Aldridge – Comisiynydd Cyngor Sir Ynys Môn

HEFYD YN BRESENNOL

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Andrew Kirkham (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gweithredol a Phennaeth Gwasanaethau Cyllid)

Cyngor Sir Ddinbych

Steve Parker (Pennaeth Amgylchedd)

Cyngor Gwynedd

Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol)

Cyngor Sir y Fflint

Colin Everett (Prif Weithredwr)
Kerry Feather (Pennaeth Cyllid)
Louise Pedreschi (Cyfreithwraig)

Cyngor Sir Ynys Môn

Arthur Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol)
Meirion Edwards (Prif Swyddog Rheoli Gwastraff)

Prosiect Triniaeth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

Stephen Penny (Cyfarwyddwr y Prosiect)
Steffan Owen (Rheolwr y Prosiect)

11. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Nancy Matthews (Cyngor Sir y Fflint) a Barry Davies (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (Cyngor Sir y Fflint))

12. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyd Bwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2011 i'w cymeradwyo. Nododd Alex Aldridge ei fod yn bresennol yn rhinwedd ei swydd fel Comisiynydd i Gyngor Sir Ynys Môn ac nid fel Cynghorydd Sir i



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

Gyngor Sir y Fflint. Dywedodd Mr Aldridge na ddylid cyfeirio ato fel Cynghorydd mewn unrhyw gofnodion i'r dyfodol.

Ymhellach, roedd Mr Aldridge wedi datgan diddordeb yn y cyfarfod diwethaf gan ei fod hefyd yn Gyngorydd Sir i Gyngor Sir y Fflint, Awdurdod Lleol partner i'r PTGGGC.

PENDERFYNWYD-

Yn destun i'r diwygiadau uchod, bod cofnodion cyfarfod y Cyd Bwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2011 gael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

13. DATGAN DIDDORDEB

Datganodd Alex Aldridge, Comisiynydd i Gyngor Sir Ynys Môn, ddiddordeb personol gan ei fod hefyd yn Cynghorydd Sir i Gyngor Sir y Fflint.

14. ADRODDIAD CYNNYDD

Cyflwynodd y Rheolwr Prosiect adroddiad cynnydd a nododd fod y prosiect yn symud ymlaen o fewn ei gyllideb a bod y gwariant terfynol ar gyfer 2010/11 yn £867,431.71 a oedd yn cyfateb i £173,486.43 fesul Awdurdod Lleol.

Nid oedd unrhyw broblemau mawr a rhoddodd ddiweddariad ynghylch mân faterion yng ngweithgaredd y prosiect fel a ganlyn:-

- ID 32 – Penawdau'r telerau (HoTs) wedi'u llofnodi. Yn dilyn pryderon gan yr Awdurdod Priffyrdd priodol ynghylch y safle arfaethedig yn Alwminiwm Môn roedd trafodaethau yn mynd yn eu blaen i ddatrys y materion hynny. Cafwyd cyfarfod gyda'r perchennog tir a gobeithid y byddai'r holl faterion wedi eu datrys erbyn Mehefin 2011
- ID 42 – Cafwyd cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru (LIC) yng nghyswllt ffrwd ariannu bosib ar gyfer prosiectau cysylltiedig â'r rheilffordd. Byddai adborth gan Aelodau ar brosiectau rheilffordd posib yn cael eu darparu i weithdai PTGGGC i'r dyfodol
- ID 59 – Heblaw am y Cytundeb Prosiect roedd yr holl ddogfennaeth Gwahoddiadau i Gyfranogi mewn Deialog (ITCD) wedi eu hanfon
- ID 60 – Cafwyd saith sesiwn gyda chyfranogwyr i drafod safleoedd trosglwyddo gwastraff a gweithgareddau cysylltiedig â gwastraff. Byddai angen cwblhau'r holl faterion technegol cyn y gallai'r prosiect symud ymlaen i drafod y materion masnachol
- ID 61 – Roedd ffigyrau diweddaraf llif gwastraff wedi eu cyhoeddi a byddai'r model llif gwastraff yn cael ei seilio ar y ffigyrau diweddaraf hynny. Byddai adroddiad ar y ffigyrau llif gwastraff hynny'n cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

PTGGGC.

Yng nghyswllt y fenter ddiweddaraf gan Lywodraeth San Steffan i gysidro ddarparu arian i Gynghorau ar gyfer casglu biniau'n wythnosol, ni fyddai hyn yn effeithio ar Gymru. Roedd gan LIC ei phwerau ei hun i ddelio â chasglu gwastraff ac roedd wedi rhoi arwydd clir y byddai Cymru'n parhau â chasgliad bob pythefnos. Petai casglu biniau'n wythnosol yn cael ei roi ymlaen gan LIC, byddai angen meddwl am ddatrysiadau fel lleihau cynhwysedd biniau.

- ID 70 – Adroddiad ar Brosiectau Ffyrdd/Rheilffyrdd yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod o'r PTGGGC yn y dyfodol.
- ID 71 – Byddai'n bosib y bydd arwydd cynnar o bris y datrysiadau trin gwastraff ar gael yn Awst 2011
- ID 78 – Byddai'r ail Gytundeb Rhyng Awdurdod (IAA) yn cychwyn unwaith yr oedd y datrysiadau trin gwastraff yn hysbys

PENDERFYNWYD-

Nodi'r adroddiad cynnydd ar gyfer y prosiect.

15. RIR – DIWEDDARIAD STATWS RISG

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr y Prosiect yr Adroddiad Cofrestr Risg, a oedd yn amlygu rhai o'r diwygiadau a wnaethpwyd i adlewyrchu'r ddealltwriaeth bresennol o risg a'r mesurau lliniaru sydd yn eu lle.

Dynodwyd risg yng nghyswllt ymgynghoriad LIC ar y cynlluniau sector newydd ar gyfer Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith, a Marchnad, a Chynllun Sector Bwyd, Gwasanaethau a Manwerthu. O fewn yr ymgynghoriadau, cyfeirir at gyflwyniad posib treth ar wastraff i ynni, er bod y dogfennau'n cydnabod nad oes gan LIC presennol y pŵer i wneud hyn. Yn dilyn ymateb gan LIC cydnabuwyd fod nad oedd y cyfeiriad hwn at dreth ar ynni gwastraff yn bolisi ffurfiol ac y byddai'n debygol o gael ei ddileu o'r Cynlluniau. Fodd bynnag, hyd nes y bo'r Cynlluniau Sector terfynol yn cael eu cyhoeddi, byddai'n parhau'n risg.

Nid oedd gan Aelodau unrhyw faterion i godi yng nghyswllt y risgiau a amlinellwyd yn atodiad 1, na'r newidiadau a wnaethpwyd yn y cyfnod fel yr amlinellwyd yn atodiad 2.

PENDERFYNWYD-

Nodi'r gofrestr risg wedi'i diweddarau ar gyfer y prosiect.

16. DIWEDDARIAD CYFATHREBU

Rhoddodd Rheolwr y Prosiect ddiweddariad i Aelodau yng nghyswllt materion Cyfathrebu PTGGGC.

Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg yn cyhoeddi fod y prosiect mewn trafodaethau ag Alwminiwm Môn ynghylch sicrhau rhan o'r safle i'r



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

prosiect. Hefyd cyhoeddwyd Newyddlen Aelodau gyda'r un wybodaeth.

Cyflwynwyd llyfryn ymgynghori drafft i Aelodau am sylwadau. Unwaith y bydd wedi ei orffen, bydd y llyfryn yn cael ei argraffu a'i gylchu i leoliadau perthnasol fel Swyddfeydd Cyngor, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden ayb.

Byddai Sesiynau Aelodau'n cael eu cynnal ar Ddydd Gwener, 17 Mehefin 2011 am 2.00 pm ym Mangor a Dydd Mercher 29 Mehefin 2011 am 2.00 pm yn Llanelwy. Gan mai dim ond llond dwrn o Aelodau oedd wedi cadarnhau eu presenoldeb yn y sesiynau, awgrymwyd anfon nodyn atgoffa gwahoddiad cyn gynted â phosib.

Roedd sylwadau ac atebion i ymholiadau Aelodau fel a ganlyn:-

- Eisoës cafwyd adborth cwsmeriaid, fodd bynnag byddai'r ymgynghoriad yn rhoi'r dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi unrhyw Geisiadau Cynllunio sy'n ymwneud â'r Prosiect. Ymhellach, byddai sawl opsiwn yn cael ei gynnig i'r Prosiect a gallai'r ymgynghoriad ddylanwadu ar y datrysiad
- Byddai'r Sesiynau gweithdy'n cael eu hwyluso gan Reolwr y Prosiect, Cyfarwyddwr y Prosiect a John Twitchen o Sauce Consultancy
- Yng nghyswllt ymgynghori, awgrymwyd yr opsiynau canlynol:-
 - Sesiynau Galw Heibio
 - Sioeau ffordd mewn Archfarchnadoedd a Chanolfannau Siopa
 - Arolygon Ffôn
 - Gweithlu trwy ryngwyd i bartneriaid perthnasol
 - Gweithlu Sefydliadau Partner fel Parc Cenedlaethol Eryri, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr trwy eu gwefannau

Yng nghyswllt pryderon am Aelodau'n cyn-benderfynu Cais Cynllunio drwy eu rôl fel Aelod Etholedig, dylid rhoi cyngor priodol i Aelodau yn y gweithdai. Ymhellach, dylid anfon llythyr gyda'r ymgynghoriad i Aelodau. Dylid atgoffa Aelodau os ydynt yn defnyddio'u rôl fel Aelod Adran Etholiadol leol i leisio eu pryderon yn gyhoeddus, byddai hyn yn cael ei ystyried fel cyn-benderfyniad ac felly buasent yn cael eu gwahardd o unrhyw benderfyniad pwyllgor Cynllunio.

PENDERFYNWYD-

- (a) Nodi cylchu'r Datganiad i'r Wasg a Newyddlen Aelodau.**
- (b) Cymeradwyo'r llyfryn ymgynghoriad.**
- (c) Anfon gwahoddiad i atgoffa Aelodau am y Sesiynau Gweithdy.**
- (d) Anfon llythyr at yr holl Aelodau, gyda'r llyfryn**



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

ymgyngoriad, yn rhoi cyngor iddynt o'u gweithredoedd yng nghyswllt cyn-benderfynu.

17. DIWEDDARIAD CAFFAEL RHEILFFYRDD

Diweddarodd y Cyfarwyddwr y Prosiect yr Aelodau ar y dull arfaethedig o ystyried mabwysiadu posib rheilffyrdd fel rhan o'r datrysiad PTGGGC yn y broses gaffael.

Mae'r Bartneriaeth wedi ei gwneud yn glir i Gyfranogwyr, drwy gydol y broses gaffael hyd yma, fod y Bartneriaeth eisiau archwilio defnydd posib rheilffyrdd fel rhan o unrhyw ddatrysiad y gellir ei ddatblygu ar gyfer y Prosiect.

Yn dilyn trafodaeth yn y tîm prosiect, a'i gynghorwyr cyfreithiol allanol, argymhellwyd proses sy'n rhoi risg isel o herio, ac sy'n dal i alluogi'r Bartneriaeth i wneud penderfyniad polisi ar p'un a yw'n dymuno datrysiad seiliedig ar ffyrdd neu reilffyrdd ar y cam priodol.

Yn fyr y broses oedd:-

- Y cam Gwahoddiad i Gyflwyno Atebion Manwl (ISDS) yn ei gwneud yn ofynnol i Gyfranogwyr gyflwyno datrysiadau ffyrdd a rheilffyrdd wedi'u datblygu'n llawn ym Medi 2011
- Partneriaeth i asesu'r cyflwyniadau a phenderfynu ar ddatrysiad ffyrdd neu reilffyrdd yng nghyfarfod y Cydbwyllgor PTGGGC a gynhelir yn Hydref 2011. Ni fyddai unrhyw gyfranogydd yn cael ei ddad-ddethol ar y cam hwn
- Hysbysu Cyfranogwyr o benderfyniad y Bartneriaeth (datrysiad seiliedig ar ffyrdd neu reilffyrdd) a rhoi 3 wythnos arall iddynt fireinio eu datrysiad (trwy Wahoddiad i Gyflwyno datrysiadau wedi'u mireinio - ISRF)
- Ymatebion ISRF y cyfranogwyr yn cael eu cyflwyno yn Nhachwedd 2011 gyda'r Bartneriaeth yn gwneud ei benderfyniad ar y ddau Gyfranogydd i fynd drwedd i'r cam CFT yn Ionawr 2012
- Mae'r broses dau gam yn ymestyn y broses gaffael gan hyd at 3 mis, ond barn y tîm prosiect oedd bod angen y cam ychwanegol hwn i sicrhau y gellir ystyried y rheilffordd yn briodol

Roedd y Cyfarwyddwr y Prosiect yn hyderus yn dilyn asesiad cychwynnol ynghylch mynediad rhwydwaith y byddai'r Cyfranogwyr yn medru cyflenwi cyflwyniad rheilffordd. Cynghorwyd Aelodau ymhellach fod gan Alwminiwm Môn derfynfa rheilffordd wedi'i leoli ar y safle.

PENDERFYNWYD-

Cymeradwyo'r dull caffael arfaethedig er mwyn galluogi'r Bartneriaeth i benderfynu ei bolisi dewisol yng nghyswllt defnyddio'r ffyrdd neu'r rheilffyrdd fel y sail ar gyfer y



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

datrysiadau

18. UNRHYW FATER ARALL

Cynghorwyd Aelodau fod Cyfeillion y Ddaear wedi cyhoeddi datganiad briffio. Roedd ymateb i'r datganiad hwnnw wedi ei anfon at ENTEC am ei fewnbwn technegol. Byddai'r ymateb yn cael ei anfon at Aelodau am sylwadau ond rodd angen ateb erbyn Dydd Llun, 6 Mehefin 2011 er mwyn galluogi'r ymateb i gael ei anfon erbyn prynhawn y diwrnod hwnnw.

**EITEM AGENDA RHIF 5****ADRODDIAD CYNNYDD CYDBWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU****CYDBWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU****Dyddiad: 6 Hydref 2011****Cyfnod: 26 Mai 2011 i 28 Medi 2011****CRYNODEB Y PROSIECT**

I gaffael datrysiad rheoli gwastraff cynaliadwy i'r 5 awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd ac Ynys Môn) a fydd yn cynorthwyo â lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o dirlenwi ac yn lleihau'r tunelledd o weddillion gwastraff a anfonir i dirlenwi a thrwy hynny sicrhau fod yr awdurdodau'n osgoi'r cosbau tordyletswydd Cynllun Lwfans Tirlenwi (LAS) a chwrdd â thargedau'r Strategaeth Wastraff Genedlaethol.

STATWS Y PROSIECT

Statws Cyffredinol y Prosiect	
Ambr	Mae deialog wedi bod yn parhau gyda'r tri ymgeiswyr ar faterion cyfreithiol, ariannol a thechnegol. Mae'r broses ymgynghori wedi bwrw ymlaen gyda nifer o seynau wedi'w gynnal ar hyd ardal y Bartneriaeth er mwyn i hapddalwyr a'r cyhoedd gael cyfle i drafod y prosiect. Un o'r ymgeiswyr wedi gofyn am estyniad i'r amserlen.

Statws Cyllideb	
Gwyrdd	Gwariant y flwyddyn ariannoll hon hyd at 19/08/11 yw £312,096. Gwariant y flwyddyn ariannoll hon wedi'w brofflio hyd at 31/07/11 yw £405,087 (dan broffil o £92,991).

Statws	Ystyr
Gwyrdd	Nid oes unrhyw broblemau; popeth yn mynd ymlaen yn



	dda ac i'r cynllun
Ambr	Mae rhai problemau bach / llai. Mae angen gweithredu mewn rhai meysydd ond mae rhannau eraill yn bwrw ymlaen yn foddhaol
Coch	Mae problemau sylweddol a rhai brys ac mae angen gweithredu pendant.

DIWEDDARIAD PROSIECT – Gweithgareddau sydd i'w cwblhau o 7^{fed} Ionawr 2011 i 18^{fed} Mawrth 2011 (a gweithredoedd tymor hirach sydd wedi'u lliwoleuo).

ID	Gweithgaredd	Statws RAG	Sylwadau	Rhagolwg	Gwirioneddol
32	Opsiwn wedi'i ddatblygu ar ail safle sydd â'r gallu i'w dderbyn gan y Cyd Bwyllgor	Ambr	Diweddariad ar lafar gan Gyfarwyddwr y Prosiect	Mai 2011	
60	Dynodi materion â defnydd posib o safleoedd presennol sy'n codi o gyflwyniadau ISOS	Gwyrdd	Deialog eang wedi ei gynnal gyda'r ymgwiswyr i gyd. Cytundeb gyffredinol wedi'w gyrraedd gyda bob ymgeisiwr.	Medi 2011	Wedi cwblhau
61	Cysylltu â swyddogion technegol ar lifoedd gwastraff yn dilyn data alldro 2010/11.	Gwyrdd	Sesiynau unigol gyda Amec a'r awdurdodau i fynd trwy'r model llif gwastraff yn fanwl. Sesiynau grwp technegol wedi'i gynnal i gytuno'r rhagolwg llif gwastraff. Gweler eitem 8 ar yr agenda.	Mehefin 2011	Wedi cwblhau
62	Caffael ymgynghorwyr i gynllunio a chynnal ymarfer ymgynghori ar ddull y bartneriaeth	Ambr	Proses ymgynghori wedi cychwyn ym Mis Mehefin 2011.	Diwedd Chwef 2011	Wedi cwblhau
63	Penderfynu ar gefnogaeth ymgysylltu a hwyluso	Ambr	Cefnogaeth hwyluso i'w ddefnyddio yn ôl yr angen. Sauce Consultancy i'w	Mawrth 2011	Wedi cwblhau



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

			ddefnyddio ar gyfer cymorth a chyngor strategol arbennigol.		
64	Sesiynau deialog Mehefin	Gwyrdd	Cyfarfodydd gyda chyfranogwyr fel rhan o'r broses deialog gystadleuol	Mehefin 2011	Wedi cwblhau
65	Sesiynau deialog Gorffennaf	Gwyrdd	Cyfarfodydd gyda chyfranogwyr fel rhan o'r broses deialog gystadleuol	Gorffennaf 2011	Wedi cwblhau
66	Sesiynau deialog Awst	Gwyrdd	Cyfarfodydd gyda chyfranogwyr fel rhan o'r broses deialog gystadleuol	Awst 2011	Wedi cwblhau
67	Sesiynau deialog Medi	Gwyrdd	Cyfarfodydd gyda chyfranogwyr fel rhan o'r broses deialog gystadleuol	Medi 2011	Wedi cwblhau
68	Pecyn briffio wedi'i roi i swyddogion cynllunio mwynau a gwastraff	Gwyrdd	Pecyn briffio wedi'i wddarparu i Swyddogion.	Mehefin 2011	Wedi cwblhau
69	Rhoi'r Model Llif Gwastraff ISDS i gyfranogwyr	Gwyrdd	Yn dilyn gweithred 61	Diwedd Mehefin 2011	Wedi cwblhau
70	Proses ar gyfer asesu datrysiadau ffordd / ffordd-rheilffordd i'w penderfynu	Gwyrdd	Proses ar gyfer asesu datrysiadau ffordd / ffordd-rheilffordd wedi ei gytuno.	Gorffennaf 2011	Wedi cwblhau
71	Tîm Prosiect i dderbyn arwyddion cynnar o gynnwys cyflwyniadau ISDS posib gan gynnwys gwybodaeth prisio ayyb	Gwyrdd	I roi cymorth i'r Tîm Prosiect mewnol a'r Swyddogion Cyllid awdurdod partner fel nad oes unrhyw "syndod" pan fydd cyflwyniadau ISDS yn cael eu derbyn yn y pen draw.	Awst 2011	Wedi cwblhau
72	Datrysiadau ISDS i'w cyflwyno gan gyfranogwyr	Ambr	Diweddariad ar lafar gan y Gyfarwyddwr Prosiect yn y cyfarfod (gweler atodiad 1 isod am	Diwedd Ionawr 2012	



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

			amserlen caffael diwygiedig)		
73	Aseiad o gyflwyniadau ISDS	Ambr	Prif wybodaeth wedi'i darparu i Swyddogion Cyllid, Technegol a Chyfreithiol cyn datblygu argymhellion i'r Bwrdd Prosiect a'r Cyd Bwyllgor	Chwefror 2012	
74	Cyfranogwyr yn cael gwybod am benderfyniadau'r bartneriaeth am ffordd / ffordd-rheilffordd, a'u gwahodd i gyflwyno mireiniadau i'w cyflwyniadau ISDS o ystyried y penderfyniad	Ambr	Yn ôl yr amserlen gaffael ddiwygiedig (gweler atodiad 1)	Gynar yn Mawrth 2012	
75	Cyflwyniad o ISDS wedi'i Fireinio gan gyfranogwyr	Ambr	Yn ôl yr amserlen gaffael ddiwygiedig (gweler atodiad 1)	Ebrill / Mai 2012	
76	Gwerthuso cyflwyniadau ISDS wedi'i Fireinio	Ambr	Yn ôl yr amserlen gaffael ddiwygiedig (gweler atodiad 1)	Mai / Mehefin 2012	
77	Safleoedd negodi i'w cytuno gan y Bwrdd Prosiect	Gwyrdd	Bydd y PD yn datblygu nifer o safleoedd "gorau" a "stop cefn" ar gyfer cymeradwyaeth gan y Bwrdd Prosiect, fydd yn cael eu defnyddio i gymryd safleoedd masnachol yn y broses gaffael	Gorffennaf 2011	Wedi cwblhau
78	Yr ail IAA (IAA2) i'w ddechrau	Gwyrdd	Hyn i ddechrau unwaith y bydd datrysiadau ISDS yn wybyddus (a'r strwythurau contract tebygol yn fwy pendant). Rhai	Tachwedd 2011	



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddillio Gogledd Cymru

			trafodaethau rhagarweiniol a gwaith datblygiad i'w gynnal yn ystod haf 2011.		
79	Gwybodaeth teitlau safleoedd partneriaeth a chyfyngiadau cysylltiedig yn cael eu casglu a'u dynodi	Gwyrdd		Mehefin 2011	Wedi cwblhau
80	Tim Prosiect a swyddog cyfreithiol arweiniol i gwedd a'r adran ystadau i drafod unrhyw anghysondebau yn y gwybodaeth teitlau	Gwyrdd		4 Hydref 2011	
81	Amser ychwanegol wedi'i roi ar gyfer ymatebion ymgynghorol	Gwyrdd	Pythefnos wedi ei ychwanegi er mwyn medru cynnwys mor gymaint o ymatebion ag y bo modd	7 Hydref 2011	
82	Dadansoddiad llawn o'r ymatebion ymgynghorol	Gwyrdd	Adroddiad i'w greu yn dangos canlyniadau'r ymarfer ymgynghori	Hydref 2011	
83	Adrodd yn ôl i'r cyhoedd ac atebwyr gyda canlyniadau'r ymgynghoriad	Gwyrdd	I'w gadarnhau (gweler eitem 84 isod)	I'w gadarnhau	
84	Cynllun ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu am y 12 mis nesaf	Gwyrdd	Cyfarfod wedi'w drefnu gyda'r Tim Prosiect, Amec a Sauce Consultancy i gynllunio ymgysylltu a chyfathrebu am y 12 mis nesaf	21 Hydref 2011	
85	Cwrdd a	Gwyrdd		Tachwedd	



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

	Asiantaeth Amgylchedd Cymru i drafod materion technegol yn codi o'r cynnigion			2011	
86	Deialog pellach cyn cynnigion ISDS	Gwyrdd		Rhagfyr 2011	
87	Timau ariannol a thechnegol i'r ymgynghori ar yr asesiad ffordd / rheilffordd cyn y Cyd-Bwylgor	Gwyrdd		Chwefror 2012	
90	Asesiad ffordd / rheilffordd i'w gyflwyno i'r Bwrdd Prosiect a'r Cyd-Bwylgor	Gwyrdd		Chwefror / Mawrth 2012	

RISGIAU ALLWEDDOL – Gweler eitem 6 ar yr agenda hon.

**Atodiad 1 – Amserlen Caffael Amlinellol**

Allwedd

Penderfyniad Cyd Bwyllgor	Penderfyniad awdurdodau partner unigol	Arolwg / Penderfyniad LIC
---------------------------	--	---------------------------

Pwyntiau Penderfyniad Allweddol

Cymal	Dyddiad Allweddol	Penderfyniad allweddol	Pwy
Cyd Bwyllgor – Ffordd /Rheilffordd	Mawrth 2012	Penderfyniad ffordd / rheilffordd	Cyd Bwyllgor (Swyddogion Arainnol i'w ymgynghori)
Cyd Bwyllgor - Dad-ddewis ISDS	21/06/2012	Dad-ddewis o un ymgweisiwr	Cyd Bwyllgor
Arolwg parodrwydd LIC	Medi to Hydref 2012	Ydy'r materion I gyd wedi ei ddatrys cyn cau deialog?	LIC
Cyd Bwyllgor i gymeradwyo cynigydd a ffefrir, Achos Busnes Terfynol a IAA2	Chwef 2013	Cynigydd a ffefrir, Achos Busnes Terfynol a IAA2	Cyd Bwyllgor
Awdurdodau unigol i gymeradwyo cynigydd a ffefrir, Achos Busnes Terfynol a IAA2 a rhoi caniatad i symyd ymlaen i wobrwyo'r cytundeb	Chwef i Mai 2013	Cynigydd a ffefrir, Achos Busnes Terfynol a IAA2 a rhoi caniatad i symyd ymlaen i wobrwyo'r cytundeb	Awdurdodau partner (Pwyllgor Gwaith, Cyngor Llawn, Pwyllgor Craffu ayb)
Arolwg "Gateway" 3 – Penderfyniad LIC (Cymeradwyaeth LIC o'r Achos Busnes Terfynol)	Mai i Mehefin 2013	Caniatau'r arian grant	LIC
Cyd Bwyllgor JC approval of Contract award	Awst 2013	Gwobrwyo'r cytundeb	Cyd Bwyllgor
Cais Cynllunio ar gyfer y prif gyfleuster	Gorff 2013		
Penderfyniad Cynllunio	Gorff 2013 i Mawrth 2014	Penderfyniad Cynllunio	Pwyllgor(au) cynllunio priodol o fewn y awdurdod(au) partner



EITEM AGENDA RHIF: 6

ADRODDIAD I: CYD BWYLLGOR PTGGGC

DYDDIAD: 6 HYDREF 2011

ADRODDIAD GAN: Y CYFARWYDDWR PROSIECT

PWNC: : ADRODDIAD Y GOFRESTR RISG

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Mae aelodau o Gyd Bwyllgor NWRWTP wedi gwneud cais i dderbyn diweddariad o'r gofrestr risg ym mhob cyfarfod o'r Cyd Bwyllgor.
- 1.2. Bydd yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at rai o'r diwygiadau i'r gofrestr risg sydd wedi'u gwneud i adlewyrchu'r ddealltwriaeth bresennol o risgiau a'r mesurau lliniaru sydd yn eu lle.

2. CEFNDIR

- 2.1. Bydd angen diweddaru'r Gofrestr Risg yn barhaus drwy gydol y prosiect.

3. YSTYRIAETHAU

- 3.1. Mae un risg ychwanegol wedi ei adnabod yn y cyfnod adrodd yma.
 - PS 12 (Cynllunio a Chaniatau). Mae'r cyhoeddiad ddiweddar o'r Cynllun Sector Farchnadoedd, Isadeiledd a Chasgliadau gan LIC wedi arwain at ansicrwydd am statws y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol sydd yn bodoli ar hyn o bryd. Mae'r bosib y gellir rhoi bwysau îs ar y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol wrth benderfynnu ar gais cynllunio ar gyfer cyfleusterau gwastraff os yw'r ansicrwydd dros ei statws yn parhau. Mae'r Tîm Prosiect â'r Tîm Cynllunio Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi bod yn trafod y mater gyda LIC i sicrhau nad yw'r fersiwn trefynnol o'r Cynllun Sector Farchnadoedd, Isadeiledd a Chasgliadau yn gadael "gwactod cynllunio".
- 3.2. Mae newid i risg F2 (Ariannol) yn y cyfnod hon (oediad yn y broses caffael yn arwain at gostau caffael uwch). Mae hyn oherwydd cais gan ymgeiswyr am estyniad i'r amserlen ISDS (tua 5 mis). Mae'r amserlen newydd dal o fewn y sensitifrwydd ofewn yr Achos Busnes Amlinellol o 12 mis o oedi i'r.
- 3.3. Mae'r 9 risg Uchaf (ar ôl gosod rheolaethau yn eu lle) yn cael eu dangos yn atodiad 1.
- 3.4. Risg TB4 wedi ei gau gan ei fod yn ail adrodd F2
- 3.5. Dangosir y newidiadau yn y cyfnod hwn yn atodiad 2



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

3.6. Bydd y gofrestr risg yn parhau i gael ei hadolygu gan y Cyfarwyddwr Prosiect a'i hadrodd i'r Cyd Bwyllgor mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

4. ARGYMHELLION

4.1. Bod y Cyd Bwyllgor yn nodi diweddariad y gofrestr risg ar gyfer y prosiect.

5.00 GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.01 Amherthnasol

5. EFFAITH GWRTH DLODI

5.1. Dim

6. EFFAITH AMGYLCHEDDOL

6.1. Amherthnasol

7. EFFAITH CYDRADDOLDEB

7.1. Amherthnasol

8. GOBLYGIADAU PERSONÉL

8.1. Amherthnasol

9. ANGEN YMGYNGHORIAD

9.1. Amherthnasol

10. YMGYNGHORIAD WEDI'I GYNNAL

10.1. Amherthnasol

DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985

Dogfennau cefndir:

Dim

Swyddog Cyswllt: Stephen Penny NWRWTP



Atodiad 1 Prif risgiau a materion (Coch)

ID	Risk / Issue (i.e.: Threat to the Project)	Consequence	Current Assessment			How the risk will be managed and controlled		Residual risk after			Impln Date	Review Date	Additional explanatory notes
			Impact	L'hood	Overall	Already in Place	Not in Place (Proposed)	Impact	L'hood	Overall			
Policy & regulatory Risk – Change in WG objectives / regulations													
PO1	WG changes financial support available for residual waste treatment projects due to WG affordability / budgetary constraints in the current economic climate	Residual waste treatment projects become less affordable for partnership and each partner authority	5	4	20	Project Team to monitor WG positions in terms of budget availability and lobby at ministerial level if there are indications that proposed funding is to be reduced		5	3	15	Ongoing	Nov-10	
PO2	WG Environmental policy and objectives change	Project is now inappropriate	4	5	20	Keep in close contact with WG to ensure potential policy changes that may impact on the project are identified early. Project team develop a partnership consultation response (for approval by the PB and Joint Committee) highlighting the potential impact of such a target on the project and to ensure WG addresses how any such target is related to potential household numbers of population growth rates that authorities may be subject to in future.		4	4	16	Ongoing	Feb-11	WG have indicated in the final Municipal Sector Plan (MSP) that they may adopt a waste minimisation target for MSW with a negative growth rate (reduction) of -1.2% pa. The WG MSP does not take any account of individual or partner authority HH or population growth rates. The Partnership has however received guidance from WG that the Partnership is free to make its own assessments about future waste arisings and as a result planning risk is now moderated.
PO4	Change in legislation or guidance either at European, National or Regional/Local level	Could require revisit of preferred solution, possible termination of project, excessive LAS compliance costs	3	5	15	Keep in close contact with WG to ensure potential policy changes that may impact on the project are identified early. Lobby WG and liaise with W/LGA on this issue.		3	4	12	Ongoing	Sep-10	WG have now clarified the position on use of IBA (Bottom ash) so the likelihood of policy change in relation to this has reduced. However recent sector plan consultations have raised the potential for the introduction of a tax on waste to energy. The Project team one of a number of options that WG may consider. If WG were to introduce such tax the financial impacts cannot be determined at this point but could potentially be considerable. (dependant on whether this would apply to household waste or just to C&I wastes). To be prudent the impact assement has been increased from 3 to 4 to reflect this uncertainty. The Project team have submitted a joint letter in conjunction with project green to WG. The Project team are now awaiting final publication of the Collections and Infrastructure Plan.



Atodiad 2 Newidiadau yn y cyfnod hwn

ID	Risk / Issue (i.e.: Threat to the Project)	Consequence	Current Assessment			How the risk will be managed and controlled		Residual risk after			Imple Date	Review Date	Additional explanatory notes
			Impact	L'hood	Overall	Already in Place	Not in Place (Proposed)	Impact	L'hood	Overall			
Communication & stakeholders – failure to proactively engage with key stake holders leading to delays and lack of public support for the proposed solution.													
CO4	Pressure from lobby groups/public against the preferred solution and location.	Alternative solution/site has to be sought, increased project development costs, delays to project delivery programme, excessive LAS costs,	4	5	20		Project team will ensure an adequate stakeholder engagement and communications plan in place. Alternative site work will continue during early stages of procurement process.	4	3	12	Ongoing	Sep-10	
Procurement Strategy and Process													
P13	Technological solutions offered are not commissionable within LAS infraction timescales	LA' s face infraction fines for additional landfill above allowance	4	4	16	OBC modelling has shown that each partner authority can meet LAS allowances if they increase "front end" recycling and composting" and the project is delivered to timetable. Any underperformance in this "front end" recycling and composting are outside the scope of this project and any	Procurement process to ensure that is delivered in timely manner with the risk of late delivery of the residual waste treatment service minimised.	4	3	12	Ongoing	Sep-10	
Planning and permitting –ability to secure successful planning and permitting outcome for solution													
PS5	Suitable sites are not in council ownership to support development of the solution	Project delayed whilst suitable sites are secured	5	3	15	Project team are identifying sites that could be suitable for location of both the waste transfer stations and residual waste treatment facility(s)	Commence negotiations with land owners of (further) additional sites identified as potentially suitable for location of facilities with the aim of securing	5	3	15	Ongoing	Sep-10	
PS14	The recent issue of the draft Collections, Infrastructure and Markets Sector Plan (CIM) by WG has led to uncertainty as to the status of the existing Regional Waste Plan (RWP). Thus the RWP may be given reduced weight in determination of a planning application for waste facilities. A policy vacuum may therefore exist if this is not addressed by WG.	Unsuccessful planning application	4	4	16	Project team and north wales regional waste planning team engaging with WG on this issue to ensure that the final issued version of Collections, Infrastructure and Markets Sector Plan (CIM) does not leave a planning "policy vacuum".		4	3	12	Ongoing	Sep-11	WG's published draft Collections, Infrastructure and Markets Sector Plan (CIM) indicates that RWP's will be replaced but with no indication as to timetable for replacement.



Atodiad 2 Newidiadau yn y cyfnod hwn

ID	Risk / Issue (i.e.: Threat to the Project)	Consequence	Current Assessment			How the risk will be managed and controlled		Residual risk after			Impln Date	Review Date	Additional explanatory notes
			Impact	L'hood	Overall	Already in Place	Not in Place (Proposed)	Impact	L'hood	Overall			
Wastes													
